



Adroddiad data gollyngiadau gorlifoedd storm – 2023

Cyflwyniad

Y llynedd, gwnaethom gynhyrchu adroddiad ar ddata gollyngiadau gorlifoedd storm o 2022, <https://naturalresources.wales/media/vk5ludks/nw-storm-overflow-spill-data-report-final-welsh.pdf>, yn unol â'r camau gweithredu a nodir gennym yn y cynlluniau gweithredu gorlifoedd storm a'r map ffordd gorlifoedd storm. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu diweddariadau blynyddol i'r adroddiad hwn, gan rannu data ar ollyngiadau a gafwyd oddi wrth gwmnïau dŵr yng Nghymru ac a adolygir gan CNC. Mae hyn er mwyn helpu i wella tryloywder i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ac ysgogi gwelliannau ym mherfformiad cwmnïau dŵr.

Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, rydym yn cydnabod pryder y cyhoedd ynghylch nifer y gollyngiadau o orlifoedd storm a'r effaith bosibl ar ein hafonydd a'n harfordir.

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, rydym wedi sefydlu Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru, ac i ddatblygu cynlluniau manwl i ysgogi newid a gwelliant cyflym. Yn y cynlluniau gweithredu, rydym yn ymrwymo i gynyddu gwaith monitro, casglu tystiolaeth i werthuso effaith gorlifoedd storm, a thynhau ein rheolaeth reoleiddiol dros y gollyngiadau hyn.

Dyfeisiau monitro hyd digwyddiad

Ledled Cymru, mae dros 2,000 o [orlifoedd storm](#) a ganiateir ar y rhwydwaith carthffosydd. Fe'u cynlluniwyd i leddfu pwysau yn ystod cyfnodau o law trwm pan nad yw'r rhwydwaith carthffosydd yn gallu ymdopi wrth iddo lenwi'n gyflym. Mae angen trwydded gennym ni ar gyfer pob gorlif storm i ollwng yn gyfreithlon i'r amgylchedd. Mae'r drwydded yn cynnwys amodau i warchod yr amgylchedd a rhaid i gwmnïau dŵr gydymffurfio â'r amodau hyn.

Ni oedd y rheoleiddiwr amgylcheddol cyntaf i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr osod dyfeisiau monitro hyd digwyddiad (EDMs) ar bob gorlif storm sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r dyfeisiau monitro hyn yn mesur pa mor aml y mae gorlifoedd yn ymollwng i'r amgylchedd ac am ba mor hir. Yng Nghymru, gosodwyd mwyafrif y dyfeisiau monitro hyd digwydd erbyn 2020. Maent bellach yn cwmpasu dros 99% o'r rhwydwaith. Mae amodau trwydded yn ei gwneud yn



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

ofynnol i gwmnïau dŵr gyflwyno ffurflenni data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad ar gyfer pob safle yn flynyddol. Mae'r data a gesglir o ddyfeisiau monitro hyd digwyddiad bellach yn ganolog i'r ddadl gyhoeddus a'n dealltwriaeth o ollyngiadau.

Ar ddiwedd mis Chwefror bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy gyflwyno eu datganiad data rheoleiddiol o'u dyfeisiau monitro hyd digwyddiad i ni i'w archwilio, a'i gyhoeddi ar eu gwefannau. Mae Dŵr Cymru hefyd yn cyflwyno data'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad sy'n ymwneud â dyfroedd ymdrochi ar ddiwedd mis Tachwedd bob blwyddyn.

[Monitro Hyd Digwyddiad | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](https://dwrcymru.com)

[Llyfrgell rheoleiddio | HD Cymru](#)

Yn 2024, lansiodd Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy eu mapiau amser lled real. Mae'r mapiau'n dangos gweithgarwch gorlifoedd storm gan ddefnyddio data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad. Drwy rannu hyn mewn amser lled real, bydd yn galluogi rhanddeiliaid a'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ansawdd dŵr yn eu hardal.

[Gweler map gorlifoedd storm Dŵr Cymru](#)

[Gweler map gorlifoedd storm Hafren Dyfrdwy](#)

Beth mae data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad yn eu dweud wrthym?

Mae data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad yn rhoi tystiolaeth o'r canlynol i ni:

- Lle mae gorlifoedd storm yn gweithredu'n rhy aml
- Lle mae gorlifoedd storm yn gweithredu am gyfnodau hir

Rydym yn adrodd ar ddata dyfeisiau monitro hyd digwyddiad fel rhan o adolygiad perfformiad amgylcheddol blynyddol y ddau gwmni dŵr, a gyhoeddir bob mis Gorffennaf. Gweler ein hadroddiadau ar berfformiad cwmnïau dŵr ar gyfer [Dŵr Cymru](#) a [Hafren Dyfrdwy](#).

Canfyddiadau o'r data o 2023

Mae'r data yn y tabl isod yn crynhoi datganiadau cryno 2023 y dyfeisiau monitro hyd digwyddiad a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Nid ydym yn gallu asesu'r tueddiadau yn y data hyd yma gan fod y set ddata yn gymharol fach (dw y flynedd). Fodd bynnag, ein bwriad yw dadansoddi'r tueddiadau mewn adroddiadau yn y dyfodol.



Penawdau dyfeisiau monitro hyd digwyddiad ar gyfer 2023	Dŵr Cymru	Hafren Dyfrdwy
Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm a restrir yn y datganiad blynyddol yn 2023	1,982	49
Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm gyda dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u comisiynu	1,975	49
Canran y gorlifoedd storm a restrir gyda dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u comisiynu	99.6%	100%
Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm gyda data ynghylch gollyngiadau	1,916	49
Nifer cyfartalog y gollyngiadau fesul gorlif storm sydd â data ynghylch gollyngiadau yn 2023	53.5	38.8
Hyd cyfartalog (oriau) fesul digwyddiad gollwng a fonitryd yn 2023	8.6	8.5
Canran y gorlifoedd storm a ollyngwyd ddeg gwaith neu lai yn 2023	26.9%	22.4%
Canran y gorlifoedd storm a restrir gyda dyfais monitro hyd digwydd ar waith am o leiaf 90% o'r amser <i>(ychwanegiad newydd, heb ei adrodd yn adroddiad 2022)</i>	86.1%	83.7%

Yn ogystal, gan edrych ar ba mor aml y gollyngodd y gorlifoedd storm, mae data 2023 yn dangos y canlynol:

- Nid oedd unrhyw ddata ar gyfer 3% (65)
- Cafodd 8% (162) o orlifoedd storm 0 gollyngiad
- Cafodd 18% (371) ollyngiadau rhwng 1 a 9 gwaith
- Cafodd 25% (503) ollyngiadau rhwng 10 a 39 gwaith
- Cafodd 27% (540) ollyngiadau rhwng 40 a 99 gwaith
- Cafodd 19% (382) ollyngiadau rhwng 100 a 299 gwaith
- Cafodd llai nag 1% (8) ollyngiadau fwy na 300 o weithiau

Bu cynnydd yn amllder a hyd cyfartalog gollyngiadau ym mherfformiad cyffredinol gorlifoedd storm yn 2023 o gymharu â 2022, gyda nifer y gollyngiadau yn cynyddu, yn ogystal â'u hyd. Er bod 2023 yn flwyddyn wlypach o gymharu â 2022, nid oedd yn sylweddol waeth felly byddem yn disgwyl i'r rhwydwaith carthffosydd gael ei weithredu a'i ddylunio i ymdopi â'r amrywiadau arferol ym mhatrymau tywydd Cymru. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr ymchwilio ac adrodd ar y rhesymau dros fwy o weithrediad fel rhan o'r gwaith asesu parhaus sy'n gysylltiedig â chanllawiau CNC 2023.

Ein rhaglen waith barhaus



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi canllawiau i'r cwmnïau dŵr yng Nghymru ar sut i ddsbarthu gorlifoedd storm i sicrhau eu bod yn gweithredu i'r safon ofynnol. Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy ar ymgorffori'r canllawiau a sicrhau bod unrhyw orlifoedd y mae angen eu gwella yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gwella sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n achosi niwed fel blaenoriaeth.

Mae Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar y cyd i gasglu mwy o dystiolaeth ar effaith gorlifoedd storm ar ein hafonydd, i werthuso a lleihau'r effeithiau y maent yn eu hachosi, i wella'r gwaith rheoleiddio, ac i addysgu'r cyhoedd am gamddefnyddio carthffosydd.

[Gweler y cynlluniau gweithredu ar wefan Llywodraeth Cymru](#)

Rydym yn gweithio i wella ein dull rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar effaith gorlifoedd storm.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rydym yn:

- Mireinio ein canllawiau rheoleiddio, gan gynnwys y diffiniad o ddigwyddiad glaw trwm a'r diffiniad o ollyngiad diwrnod sych (cyhoeddwyd Hydref 2023). Mae hyn yn cryfhau ein gallu i weithredu yn erbyn gorlifoedd storm sy'n perfformio'n wael. Mae ein gweithgarwch rheoleiddio yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniad amgylcheddol gorau ac mae'n amrywio o gyngor a chanllawiau i gamau gorfodi.
- Gwella ein gwaith dadansoddi a'n hoffer i archwilio'r datganiadau rheoleiddiol, gan gynnwys gwirio cyflawnrwydd a chywirdeb y cofnodion yn y datganiadau.
- Cynyddu ein gweithgarwch cydymffurfio rheoleiddiol o fis Ebrill 2023 ar draws yr holl drwyddedau gollwng ansawdd dŵr, gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd.
- Cynnal adolygiad dystiolaeth ar gyfer gorlifoedd storm gyda golwg ar ddatblygu a gweithredu rhaglen fonitro well yn 2025.
- Gwella addysg a chyfathrebu ar gamddefnyddio carthffosydd, mewn cydweithrediad ag aelodau Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru.
- Gwella hygyrchedd data'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad a gyflwynwyd trwy sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Trwy waith y tasglu, mae cwmnïau dŵr wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod data'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad ar gael mewn amser lled real trwy eu gwefannau (wedi'i weithredu).
- Datblygu metrigau adrodd pellach ar gyfer gorlifoedd storm fel rhan o



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

adroddiad blynyddol yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae gwaith eisoes ar y gweill gydag Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddatblygiadau'r Aseiad Perfformiad Amgylcheddol o 2026 ymlaen.